Mark Drakeford AC/AM
Y Prif Weinidog / First Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/0497/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

19 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys diwygiadau i Adran 155 (2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw cywiro diffygion mewn cyfraith a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Darpariaethau technegol eu natur i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sydd yn yr OS hwn, ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y caiff unrhyw aelod gyflwyno cynnig am ddadl ar yr OS hwn a byddwn yn barod iawn i gymryd rhan mewn dadl o'r fath os caiff un ei chynnal.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.